John Jones, Tal-y-sarn, 1796–1857
Gweinidog (MC), pregethwr poblogaidd a grymus

Perthynai John Jones i genhedlaeth o bregethwyr yng Nghymru a dorrodd gŵys newydd yn arddull pregethu. Yr oedd yr arddull hon yn llawer mwy darluniadol, cymelliadol ac emosiynol na'r hen ddull pynciol gynt, pryd y byddai'r pregethwyr yn dewis pynciau diwinyddol i draethu arnynt.

Ar ddydd Gŵyl Ddewi 1796 y ganed John Jones, a hynny yn Nhanycastell, Dolwyddelan, Gwynedd, ergyd bwa o gastell enwog y Cymry. Yr oedd ei deulu'n Gristnogion a chynhelid dyletswydd deuluol ar yr aelwyd yn gyson. Goruchwyliwr chwarel oedd ei dad, John Jones, ac fe gafodd ef a'i briod, Elinor ach Rhisiart, naw o blant a John Jones oedd y pumed. O ganlyniad i'w ddiddordeb mewn canu, datblygodd ei ddoniau cyhoeddus. Cafodd wersi canu gan Griffith Jones, Dolbryn Goch, Capel Curig, a maes o law dysgodd eraill i ganu. Cyfansoddodd rai tonau, a'r enwocaf yw 'Llanllyfni'. Ychydig iawn o addysg ffurfiol a gafodd. Mae'n debyg iddo gael peth addysg gan David Roberts, Cerrigydrudion, a gadwai ysgol yn y pentref ym 1805, ac iddo ddysgu darllen Cymraeg. Cymro uniaith ydoedd.

Ym 1819 clywodd Henry Rees yn pregethu a chafodd y genadwri argraff ddofn arno. Yn raddol yr oedd yn dod i'r bywyd ac fe ymunodd â'r seiat yn Nolwyddelan. Am gyfnod bu'n arferiad ganddo fynd i gaeau cyfagos i'w gartref i bregethu, lle nad oedd yr un creadur byw, a thrwy hyn datblygodd ei ddoniau. Yna, yn ddirybudd, gofynnodd un o'r blaenoriaid iddo bregethu mewn tŷ o'r enw Garnedd, ac felly y gwnaeth, ar Rufeiniaid 8:9. Derbyniwyd ef yn aelod o gyfarfod misol sir Feirionnydd yn y Bala ym 1822 ac fe'i hordeiniwyd ym 1829.

Gweithiodd John Jones fel labrwr ar yr A55 am gyfnod ac yna fel chwarelwr yn Nhrefriw a Llanrhychwyn, ac yn ddiweddarach yn Nhal-y-sarn a Llanllyfni. Pennod anhapus yn ei fywyd oedd y cyfnod pan brynodd ef a chyfeillion iddo Chwarel

Dorothea yn Nyffryn Nantlle. Gostyngodd pris llechi a gofynnodd i'r gweithwyr un ai i dderbyn gostyngiad yn eu cyflog neu adael y gwaith. Gwnaeth hyn ddrwg i'w enw da yn yr ardal a thynnodd allan o'r fenter ym 1853. Priododd â Frances Edwards o Ffestiniog yn eglwys Llanllyfni ym 1824 a chawsant ddeuddeg o blant. Agorodd Frances siop a bu hyn o gymorth mawr i gynnal y teulu gan fod ei gŵr yn teithio cymaint i bregethu. Nid oedd gweinidogaeth lawn amser gyflogedig gan y Methodistiaid Calfinaidd yn y cyfnod hwnnw felly roedd rheidrwydd ar y gweinidogion i gael ffynhonnell ariannol arall.

Yr oedd yn bregethwr ymhlith y mwyaf grymus a welwyd yng Nghymru a byddai torfeydd yn tyrru i wrando arno. Gweithiai'n ddiflino, a rhwng Sulgwyn 1821 a 23 Ebrill 1832, pregethodd 2,735 o weithiau, cyfartaledd o dros bedair gwaith yr wythnos.

Byddai effeithiau cynhyrfus iawn i'w gweld yn rhai o'i oedfaon gyda phobl yn gweiddi ac yn gorfoleddu o ganlyniad i'w genadwri, ac yn achlysurol byddai'n rhaid iddo roi'r gorau i bregethu oherwydd y cynnwrf. Er hynny, dywedid ei fod ef ei hun yn sefyll yn stond heb symud na llaw na throed ynghanol y cyfan. Fel pregethwr yr oedd yn llawn argyhoeddiad, yn rymus ac effeithiol, ac fe arweiniodd lawer o bobl i gredu yn yr Arglwydd.

Bu farw ar 16 Awst 1857 ac fe'i claddwyd yn Llanllyfni ar y 23ain. Dywedwyd bod wyth meddyg, 65 gweinidog, 70 blaenor, 200 o gantorion a thua 4,000 o bobl yn y cynhebrwng, ac ymunodd dwy fil o alarwyr â'r orymdaith rhwng Pen-y-groes a Llanllyfni. Dyma'r angladd mwyaf a welwyd yn yr ardal erioed.